**gan Lucy Wooding**

Cyhoeddwyd yn *History Review* 2008

# Harri VIII a Chrefydd

***Drwy ei osod yn gadarn o fewn cyd-destun newidiol ei gyfnod, mae Lucy Wooding yn canfod cydlyniad ym mholisïau crefyddol Harri VIII***

*Mae Harri VIII yn adnabyddus am nifer o bethau, ond nid yw bod yn hynod o grefyddol yn eu plith. Gallwn feddwl amdano fel unigolyn mawreddog, rhyfelgar, dinistriol neu ystrywgar, ond nid yn arbennig o dduwiol. Ac eto crefydd oedd un o'r pynciau oedd yn flaenllaw ym meddwl Harri; ar wahân i ryfel, mae'n debyg iddo roi mwy o ystyriaeth i grefydd nag i unrhyw agwedd arall o'i deyrnasiad. Roedd crefydd yn rhan hanfodol o'i fywyd dydd i ddydd ac yn agwedd allweddol o'i frenhiniaeth. Gellid dadlau mai polisïau Harri ar grefydd oedd y mwyaf pellgyrhaeddol o'i holl fentrau fel llywodraethwr, a'i etifeddiaeth fwyaf arhosol. Heddiw, gellid honni mai crefydd Harri VIII yw'r agwedd hanesyddol a drafodir fwyaf o'i gyfnod.*




Â©ullsteinbild / TopFoto

*Harri'r VIII, brenin Lloegr 1509-1547*

## Trafod y Diwygiad

Roedd crefydd Harri yn ddirgelwch i'w gyfoedion, ac mae wedi parhau'n destun dadl byth ers hynny. Y broblem yw fod ei deyrnasiad yn cyd-fynd â dechrau'r hyn a alwyd wedi hynny yn Ddiwygiad Seisnig. Roedd gweithredoedd Harri megis torri ei gysylltiad â Rhufain, sefydlu'r Oruchafiaeth Frenhinol, cyflwyno'r Beibl Saesneg a diddymu'r mynachlogydd oll yn gamau ar y llwybr at ddyfodol Protestannaidd Lloegr. Y cwestiwn yw a oedd Harri ei hun yn ymwybodol o hyn, ac a oedd yn bwriadu i hyn ddigwydd. Mae ein dealltwriaeth ni o'r brenin a'n dealltwriaeth o'r Diwygiad Saesnig ynghlwm â'i gilydd, ac i wneud synnwyr o'r naill, mae'n rhaid i ni geisio gwneud synnwyr o'r llall hefyd.

Roeddem ni'n arfer credu bod y Diwygiad Saesnig yn fudiad blaengar, anochel yn wyneb llygredd yr eglwys yn y cyfnod cyn y Diwygiad, a bod y werin yn ei groesawu'n frwd. Roedd Harri'n ffitio braidd yn chwithig i'r dehongliad hwn, ond cyflwynwyd achos digon credadwy ar ei ran fel brenin oedd ar y cyfan yn ymateb i alwadau poblogaidd am newid, er ei fod ambell waith yn tueddu i gael ei ddylanwadu gan bwysau adweithiol o du gwŷr llys  ceidwadol. Yr un a gychwynnodd y farn hon am Harri a'r Diwygiad oedd John Foxe. Roedd ei waith *Acts and Monuments* ym 1563 – a elwir yn gyffredin yn

'Llyfr y Merthyron' – yn hynod o bwysig wrth ddiffinio hunaniaeth Brotestannaidd Saesnig, yn ogystal â ffurfio sail ar gyfer traddodiad hanesyddol a fyddai'n goroesi. Yn anffodus mae Foxe ymhell o fod yn ddibynadwy; nid ysgrifennu hanes a wnâi ond yn hytrach gwaith o ysbrydoliaeth Brotestannaidd. Roedd yn dymuno priodoli tueddiadau Protestannaidd i Harri VIII ond gan nad oedd y ffeithiau mewn gwirionedd yn ffitio, roedd yn rhaid iddo wneud y gorau y gallai, gan ddarlunio'r brenin fel dyn oedd yn cydymdeimlo â'r achos ond a oedd yn tueddu i wyro dan bwysau o wahanol garfannau o fewn y llys.

Mae barn wahanol o'r Diwygiad yn mynnu dealltwriaeth wahanol o Harri VIII. Os ydym ni'n cymryd barn wahanol i honno a fynegir gan Foxe a'r traddodiad Protestannaidd, gellir gweld mai ychydig o gefnogaeth gyhoeddus oedd gan y Diwygiad, bod yr eglwys cyn y Diwygiad mewn cyflwr da, a bod newid crefyddol yn rhywbeth a orfodwyd oddi fry. Mewn cyd-destun o'r fath, mae cymhellion Harri VIII yn edrych yn wahanol iawn – ac yn llawer llai parchus. Mae arddel y farn 'adolygiadol' hon am y brenin yn golygu dadlau nad oedd ei weithredoedd wedi'u hysbrydoli gan weledigaeth – hyd yn oed gweledigaeth rannol – o wirionedd Protestannaidd, ond eu bod yn weithredoedd mympwyol gan ŵr oedd yn pryderu fwyaf am ei sefydlogrwydd a'i foddhad ei hun. Torrodd ei gysylltiad â Rhufain oherwydd ei fod am gael gwared â Catrin o Aragon ac ni welai unrhyw ffordd arall o wneud hynny; cyflwynodd Feibl Saesneg gan fod hynny'n ei helpu i gyflawni ei amcanion ei hun; diddymodd y mynachlogydd am ei fod yn dymuno cael gafael ar eu harian. Rydym yn ystyried y farn hon yn un fodern, yn gysylltiedig â gwaith Jack Scarisbrick, Christopher Haigh ac Eamon Duffy, ond mae ei gwreiddiau yn dyddio'n ôl mor bell â chyfnod Foxe. Gan ddyfynnu'r gŵr Catholig o Oes Elisabeth, Nicholas Sanders, 'Ildiodd y ffydd Gatholig am ddim rheswm yn y byd ar wahân i'r rheswm hwnnw oedd yn deillio o'i chwant a'i ddrygioni.' O'r persbectif hwn, mae polisïau crefyddol Harri yn colli unrhyw gysylltiad â gwir gred grefyddol, ac yn ymddangos fel gweithredoedd o drachwant ac uchelgais.

Eto mae problemau'n parhau gyda'r ddau ddehongliad. Trafferth sylfaenol wrth i ni edrych ar y mater cymhleth hwn yw mai edrych yn ôl ydym ni, ac yn enwedig gydag ôl-synnwyr diwinyddol penodol. Allan o gynnwrf blynyddoedd cynnar y Diwygiad ymddangosodd cyfres o gredoau – Pabyddol, Lutheraidd, Zwinglïaidd, Calfinaidd, a maes o law hyd yn oed Anglicanaidd – oedd yn mynd i drafferth fawr i ddiffinio eu hathrawiaeth yn fanwl ac egluro eu gwahaniaethau gydag angerdd. Ond eto nid oes yr un o'r labeli hyn yn gweddu'n union i Harri na'i gyfoedion. Yn ystod ei deyrnasiad, roedd y term 'Catholig' yn dal i olygu 'byd-eang' ac roedd 'Protestannaidd' yn label gwleidyddol oedd yn cyfeirio at gynghrair bach o dywysogion Almaenig. O bersbectif sicrwydd crefyddol diweddarach, mae crefydd Harri ei hun yn edrych fel detholiad mympwyol o elfennau gwahanol. Cyflwynodd Feibl Saesneg, ond eto i gyd roedd bob amser yn amddiffyn yr Offeren Ladin a'i hathrawiaeth o'r Gwir Bresenoldeb; cafodd y sawl oedd yn gwadu bod y bara a'r gwin yn cynnwys corff a gwaed Crist eu herlid drwy gydol ei deyrnasiad. Gwrthododd babaeth, ond eto roedd hefyd yn gwrthod yr athrawiaeth Lutheraidd ganolog (a gefnogwyd yn ddiweddarach yn fwy cyffredinol gan Brotestaniaeth) o 'gyfiawnder drwy ffydd yn unig'. Gyda chymedroldeb iasol, llosgai Harri VIII y rheini oedd yn rhy efengylaidd, a dienyddio'r sawl oedd yn ffyddlon i'r babaeth fel bradwyr.

Cred rhai sylwebwyr modern mai'r ffordd orau i ddeall Harri yw drwy weld ei fod yn llawn anghysonderau, yn ddyn a wyrai'n hawdd dan bwysau, a ddewisai agweddau gwahanol o'r ffydd Gristnogol dan ddylanwad ei wragedd, ymgynghorwyr neu ddarpar gynghreiriaid tramor. Ond cred eraill nad yw'r farn hon am Harri yn argyhoeddi o gwbl. Dyma ŵr a roddodd siâp grymus i amrywiaeth o bolisïau ac a fyddai'n cael gwared â gwragedd a gwŷr llys yn frawychus o gyflym pan fyddai'n ystyried eu bod yn annigonol. Dyma hefyd ŵr a roddodd ystyriaeth a sylw gofalus i bolisïau crefyddol drwy gydol ei deyrnasiad. Ymhellach, roedd Harri'n cymryd ei grefydd ei hun o ddifrif. Byddai'n mynychu'r Offeren yn ddyddiol, yn rhoi elusen i'r tlawd, yn dathlu gwyliau crefyddol yn llawn rhwysg a difrifoldeb, ac roedd yn dilyn nifer o agweddau eraill o'i grefydd ag angerdd. Mae galw hyn yn ymddygiad confensiynol yn unig yn anwybyddu'r pwynt, sef bod Harri, lawn cymaint â'i ddeiliaid, yn credu ei fod wedi'i benodi gan Dduw, ac yn ystyried bod brenhiniaeth lwyddiannus yn anwahanadwy oddi wrth frenhiniaeth dduwiol. Os oedd Harri am fod yn llywodraethwr mawr, roedd rhaid iddo hefyd fod yn llywodraethwr duwiol, oherwydd byddai llwyddiant bydol yn cael ei weld fel rhywbeth oedd yn ddibynnol ar ffafr ddwyfol.

## Diwygiad y Brenin

Yn sgil y brychau a geir mewn dehongliadau o Harri a'i grefydd, dros y blynyddoedd diwethaf mae persbectif newydd wedi dechrau ymddangos. Mae'r ymagwedd hon yn ceisio gosod Harri'n fwy cadarn yn ei gyd-destun. Gan anwybyddu'r modd y datblygodd y Diwygiad Saesnig yn y pen draw, mae'n edrych yn fanylach ar yr hyn ydoedd ar y dechrau. Mae'n dadlau bod rhesymeg fewnol i gredoau a pholisïau Harri, oedd yn gwneud synnwyr yng nghyd-destun y 1530au, pan oedd dylanwadau'r Dadeni yn hytrach na'r Diwygiad yn dal i fod yn flaenllaw. Mae'n awgrymu i Harri adeiladu ar sylfaen o ddyneiddiaeth Gristnogol, sef y prif ddylanwad ar y meddylfryd Saesnig, gyda Lutheriaeth yn dal i gael ei ystyried yn farn leiafrifol beryglus o eithafol. Gan bwysleisio pwysigrwydd adnewyddu beiblaidd, a diwygio llygredd eglwysig, cynigiodd Harri y cyfiawnhad cryfaf y gallai ei ganfod dros

waredu Catrin o Aragon a thorri cysylltiad â Rhufain. Nid yw'r dehongliad hwn yn ceisio dadlau nad oedd Harri'n gweithredu er ei les ei hun; i'r gwrthwyneb, roedd ei uchelgais bersonol a llinachyddol yn greiddiol i bopeth a wnâi. Serch hynny roedd ei ddealltwriaeth o'i frenhiniaeth ei hun yn golygu bod rhaid iddo gredu ei fod wedi'i fendithio gan Dduw. Roedd angen iddo gael cyfiawnhad duwiol dilys dros ei weithredoedd, nid yn unig er mwyn argyhoeddi ei ddeiliaid, ond hefyd i'w argyhoeddi ei hun.

Mae trafodaethau am gymhellion crefyddol Harri yn tueddu i ganolbwyntio ar y blynyddoedd pan newidiodd pethau, rhwng 1527-34, ond mewn gwirionedd roedd arwyddion o'r dechrau fod Harri'n bwriadu cymryd diddordeb awdurdodol a moesolgar yn yr Eglwys Seisnig. Fel tywysog roedd Harri wrth ei fodd yn arddangos ei huodledd a'i ddysg er budd Erasmus, prif ddyneiddiwr diwygiol Ewrop. Unwaith iddo ddod yn Frenin, cyflogodd Harri ddyneiddwyr ysgolheigaidd megis Thomas More. Hefyd priododd wraig hynod o ddysgedig a duwiol, a gyda'i gilydd byddai'r ddau'n noddi llenorion a cherddorion, yn hyrwyddo astudiaethau Groeg a Hebraeg yn y prifysgolion, ac yn annog dyneiddwyr yn y Llys i drafod diwygio duwiol.

Mae dyneiddiaeth Gristnogol yn ffenomen anodd ei diffinio, gan fod gwahanol ysgolheigion wedi'i ffurfio'n wahanol bethau, a gwelwyd nifer oedd yn meddu ar gredoau dyneiddiol yn marw dros eu ffydd Gatholig ar y naill law fel Thomas More a John Fisher neu'n hyrwyddo achos Protestaniaeth ar y llall fel Luther, Zwingli, Thomas Cranmer neu Elisabeth I. Ond yn y bôn, dyneiddiaeth Gristnogol oedd elfen grefyddol y Dadeni. Lle'r oedd artistiaid a cherflunwyr yn ceisio ysbrydoliaeth o'r gorffennol clasurol, roedd y rhai mwy crefyddol eu naws yn troi'n ôl at destunau Cristnogol gwreiddiol, sef y Beibl a gweithiau'r tadau eglwysig cynnar. Byddai dyneiddwyr Cristnogol yn astudio Hebraeg a Groeg er mwyn iddynt allu darllen y Beibl ar ei ffurf wreiddiol, ac wrth wneud hyn daethant ar draws gwallau oedd wedi ymddangos yn y cyfieithiad Lladin yr oedd yr Eglwys yn ei ddefnyddio. Byddent yn darllen gwaith St. Augustine, St. Jerome, St. Cyprian ac eraill, ac yn siarad am ddiwygio eglwys eu hoes yn unol â'u dysgeidiaeth. Yn bennaf, roeddent yn rhannu cyffro yn sgil eu canfyddiadau, angerdd efengylaidd dros adnewyddu, gan ganolbwyntio'n arbennig ar lysoedd tywysogion, lle gobeithient y byddai eu cynlluniau i ddiwygio yn cael eu gwireddu. Roedd Harri VIII yn cefnogi'r mudiad hwn, oedd yn ffasiwn ddeallusol yn ei gyfnod, ac roedd ei lys yn llawn o'r syniadau newydd hyn.

Ar yr un pryd, roedd Harri'n gwbl benderfynol o ddod ag Eglwys Loegr dan reolaeth frenhinol. Ar y dechrau doedd hyn ddim yn anodd ei gyflawni, a sicrhawyd llawer o'r hyn yr oedd Harri am ei wneud gyda chymorth Thomas Wolsey, oedd yn Gardinal, Archesgob Caerefrog a legad y Pab. Wolsey oedd yn rheoli'r eglwys, a Harri oedd yn rheoli Wolsey. Pan gododd storm dros gwmpas annibyniaeth glerigol yn Lloegr, eglurodd Harri ei safbwynt yn glir. 'Ni yw Brenin Lloegr, ac yn y gorffennol nid oes neb wedi bod yn uwch na Brenhinoedd Lloegr ond am Dduw ei hun. O ganlyniad, bydded hysbys y byddem ni yn cadw hawl ein Coron a'n hawdurdodaeth yn y byd, ar y pwynt hwn yn ogystal â phob un arall, mewn modd yr un mor eang ag y gwnaeth unrhyw un o'n hynafiaid cyn ein hamser ni.' Mae'r datganiad hwn yn dangos nid yn unig bod Harri yn benderfynol o reoli'r Eglwys, ond ei fod hefyd yn ystyried hyn yn hawl hynafol a hynafiadol. Rhagwelwyd iaith Goruchafiaeth Frenhinol bron ugain mlynedd cyn iddi gyflawni ei ffurf derfynol.




© TopFoto

*Syr Thomas More, a ddienyddiwd am frad yn 1535*

Yn ei ddau ddegawd cyntaf fel brenin, magodd Harri berthynas â sawl Pab oedd yn fuddiol i'r ddwy ochr, â'r Pabau'n bendithio ei holl fentrau. Ym 1521, cyhoeddodd â balchder ei gyfrol, *Assertio Septem Sacramentorum*, neu 'Amddiffyn y Saith Sagrafen' oedd yn dadlau yn erbyn heresi Luther ac yn amddiffyn grym y pab, oedd wastad wedi bod yn gyfleus iawn i Harri. Aiff y stori yn ei blaen fod Thomas More wedi awgrymu y gallai lastwreiddio ychydig ar ei amddiffyniad cryf o uchafiaeth babyddol: eironi poenus, os yw'n wir. Gwrthododd Harri oherwydd ym 1521 roedd yn edrych yn debygol y gallai'r babaeth roi iddo bopeth yr oedd yn ei ddymuno, gan gynnwys teitl pabyddol Fidei Defensor, neu 'Amddiffynnydd y Ffydd', sydd yn fwy eironig fyth yn cael ei harddel gan frenin neu frenhines Lloegr hyd heddiw.

Mae'n bwysig deall sut, pan ddechreuodd Harri ddymuno cael gwared â Catrin o Aragon, yr esboniodd y sefyllfa iddo'i hun, yn ogystal ag i eraill. Fe allai fod wedi gofyn am ysgariad ar sail fwy syml o lawer ond yn lle hynny ceisiodd ddadlau bod y briodas wedi bod yn annilys o'r dechrau, oherwydd y gwaharddiad yn y Beibl ar briodi gwraig eich brawd. Roedd apelio i'r Beibl yn y modd hwn yn dangos bod Harri'n ddyneiddiwr, ar y blaen o ran y ffasiwn ddeallusol. Roedd hefyd yn golygu bod goblygiadau enfawr yn codi o'i ddadl i holl gwestiwn awdurdod y pab. Os oedd modd ateb cwestiynau crefyddol yn y Beibl, roedd uchafiaeth y Pab dan amheuaeth. Ymddengys nad oedd Harri'n gweld hyn yn glir o'r dechrau, ond wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt, a'r frwydr am ysgariad fynd yn ei blaen, fe ddeallodd y goblygiadau, ac yn fwy na hynny, roedd yn eu hoffi.

Pan ysgrifennodd Harri ei lyfr yn erbyn Luther, cyflogodd grŵp o ddyneiddwyr ysgolheigaidd i roi'r gefnogaeth angenrheidiol iddo. Nawr dechreuodd ar brosiect ymchwil mwy fyth, gyda'r ysgolheigion dyneiddiol yn cael eu galw i ddangos annilysrwydd priodas gyntaf y Brenin, a chanfod rhesymau hanesyddol a beiblaidd pam y dylai'r Brenin, yn hytrach na'r Pab, reoli'r Eglwys Seisnig. Yn ddigon dryslyd, wrth gwrs, roedd y rheini oedd yn amddiffyn dilysrwydd Catrin o Aragon fel Brenhines ac awdurdod y Pab hefyd yn ddyneiddwyr, hefyd wedi'u trwytho mewn dysg batristig a chlasurol, ac yn ysgolheigion Beiblaidd gofalus. Rhoddodd Harri holl bwysau ei nawdd brenhinol y tu ôl i'r rheini oedd yn dadlau ei ochr ef o'r achos; hefyd anfonodd gynrychiolwyr o gylch prifysgolion Ewrop i sicrhau dyfarniad o'i blaid.


Y tu ôl i'r datblygiadau deallusol hyn llechai rhai gwirioneddau amrwd. Roedd Catrin yn hen, yn methu â rhoi mab i Harri. Roedd Anne Boleyn yn ddigon ifanc, ac roedd y Brenin yn ei charu'n angerddol. Hyd yn oed ar y lefel hon fodd bynnag, nid oedd dyheadau'r Brenin yn gwbl hunanol. Nid chwiw bersonol oedd ei ddeisyfiad am fab, ond anghenraid gwleidyddol brys. Cael a chael oedd hi i dad Harri ei hun allu lliniaru'r tensiynau llinachyddol a rwygodd Lloegr yn y bymthegfed ganrif gyda rhyfel cartref. Roedd Harri VIII yn gwybod yn rhy dda bod hawl ei dad i'r orsedd ymhell o fod yn un amlwg, ac mae'r dull llym yr oedd ef ei hun yn ymdrin ag unrhyw her bosibl i'w awdurdod yn datgelu ei nerfusrwydd yn hyn o beth. Pe bai'n gorfod gadael yr orsedd heb olynydd clir, roedd yn debygol iawn y byddai Rhyfel y Rhosynnau'n ailgychwyn. Os oedd Harri VIII yn brwydro'n ddiddiwedd i sicrhau'r mab yr oedd ei angen arno, yna roedd ganddo reswm gwleidyddol da iawn dros wneud hynny.

Roedd gan y Pab Clement VII rywfaint o gydymdeimlad â Harri a'i drafferthion, ond roedd i bob pwrpas yn garcharor i Siarl V, Ymerawdwr Sanctaidd Rhufain, oedd yn nai i Catrin o Aragon. Ym 1532, felly, roedd Harri yn dechrau sylweddoli nad oedd ganddo ddewis ond torri ei gysylltiad â Rhufain, cymryd rheolaeth o'r Eglwys ei hun, datgan bod ei briodas â Catrin yn annilys a phriodi Anne. Ac yn wir dyna a wnaeth, gan sicrhau cydsyniad y genedl wleidyddol drwy ddeddfu Goruchafiaeth Frenhinol yn y Senedd, a gosod y sêl ar ei gyflawniadau drwy goroni Anne Boleyn – oedd erbyn hyn yn feichiog – yn Frenhines ym mis Mehefin 1553. Eironi hanesyddol arall oedd geni Elisabeth, yn hytrach na'r tywysog disgwyliedig, ym mis Medi 1553. Ond yn ei thro byddai Anne Boleyn hefyd yn dioddef oherwydd rheidrwydd – ei dienyddio i wneud lle i'w holynydd, Jane Seymour, a hithau o'r diwedd a lwyddodd i genhedlu'r plentyn gwrywaidd bron i 30 o flynyddoedd ar ôl i Harri ddechrau gobeithio am fab.

Drwy gydol gweddill teyrnasiad Harri gwelwyd defnydd egnïol a diwyro o'r Oruchafiaeth Frenhinol. Roedd hwn yn rhywbeth nad oedd y Brenin yn fodlon ildio unrhyw dir arno, ac yr aeth nifer o'i ddeiliaid i'r bedd o'i herwydd. Roedd yr hyn a ddigwyddodd i gredoau ac arferion crefyddol yn llai pendant, ac yn fwy cymhleth, ond hefyd yn fwy diddorol o lawer. Erbyn hyn, roedd y syniad ohono'i hun fel diwygiwr duwiol, brenin oedd yn ateb yn uniongyrchol i Dduw, wedi'i wreiddio'n ddwfn yn syniadau Harri ei hun am frenhiniaeth. Roedd wedi datblygu'n rhan o'i hunaniaeth, wedi'i atgyfnerthu gan y delweddau oedd yn ei amgylchynu. Yn gyhoeddus, darluniodd ei hun fel dyn oedd wedi cael gwared â llygredd o'r Eglwys ac adfer gwirionedd y Beibl. Ond yn breifat hefyd, fel y gwelwn o'i lyfr o salmau, roedd yn ei weld ei hun yn debyg i'r Brenin Dafydd yn yr Hen Destament, yn lladd y Goliath a gynrychiolai lygredd pabyddol. Mae'r lluniau sy'n cynrychioli Dafydd yn ei ddangos yng ngwisg ddigamsyniol Harri ei hun.

## Eglwys Gymedrol

Unwaith iddo sefydlu'r toriad â Rhufain, aeth Harri ati i ddiwygio'r Eglwys oedd bellach dan ei awdurdod ef. O edrych yn ôl, nid yw'r hyn a wnaeth yn ymddangos yn gyson. Mae'r Beibl Saesneg, y Diddymu, dinistrio'r delweddau i gyd yn edrych yn Brotestannaidd, ond eto mae amddiffyn yr Offeren Ladin, cynnal y saith sagrafen a llosgi hereticiaid Protestannaidd




World History Archive / TopFoto

*Tudalen deitl y cyfieithiad Saesneg awdurdodedig cyntaf o'r Beibl, 1539*

yn ymddangos yn Gatholig o ran pwyslais. Ond os cymerwn gam yn ôl, at amser cyn i hunanaethiau'r Diwygiad a elwir yn 'Gatholig' a 'Phrotestannaidd' ymffurfio'n gadarn, fe ddeallwn fod rhyw fath o gydlyniad ym mholisïau Harri. Roedd wedi seilio ei Oruchafiaeth ar y Beibl, felly roedd rhaid cael Beibl Saesneg ym mhob eglwys blwyf. Roedd wedi'i fodelu ei hun ar frenhinoedd yr Hen Destament oedd yn ymosod ar eilunaddoliaeth felly roedd rhaid dinistrio delweddau yr arferid eu haddoli (er bod y rhai nad oedd wedi'u camddefnyddio yn cael aros at ddibenion dysgu'r anllythrennog). Roedd yn ystyried y byddai'r mynachlogydd yn debygol o fod yn deyrngar i Rufain (oedd yn aml iawn yn wir) a'u bod yn fagwrfeydd drygioni (oedd hefyd yn wir ambell waith), felly fe'u diddymodd. Ystyriodd athrawiaeth Lutheraidd, gydag anogaeth frwd gan rai o'i gynghorwyr, oedd wedi'u perswadio gan y syniadau newydd, ond yna fe'i gwrthododd. Caniataodd rywfaint o 'foderneiddio' ar y traddodiad Catholig, fel cyfyngu ar y nifer ormodol o ddyddiau saint a darparu'r litani yn Saesneg, ond roedd yr hyn yr ystyriai yn graidd canolog y ffydd Gatholig yn parhau'n ddigyfnewid, sef yr athrawiaeth sagrafennol, ac yn benodol, credoau ac arferion yr Offeren. Yn rhyfedd ddigon, o ystyried natur anghymedrol y gŵr ei hun, roedd ei bolisi ar grefydd yn ymgais at gymedroldeb athrawiaethol.

Os ystyriwn yr amrywiol gyfnodau yn ystod ei deyrnasiad, fe ddechreuwn weld y ddadl dros gydlyniad. Er enghraifft roedd yn arfer bod yn gyffredin i gyfeirio at Ddeg Erthygl 1536 fel 'Protestannaidd' a Deddf Chwe Erthygl 1539 fel sail ar gyfer 'ymateb Catholig'. Os edrychwn yn fanylach, fodd bynnag, mae'r ddau i'w gweld fel ymdrech gan Harri i ddiffinio ei ddull ei hun o ddiwygio'r eglwys yng nghanol cyngor a phwysau oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd ar bob tu. Roedd fel pe bai'n anelu at gael 'Diwygiad Harïaidd' nad oedd yn uniongyrchol Brotestannaidd na Chatholig: math arbennig o ddiwygiad Catholig. Dangosai'r Deg Erthygl ddylanwad trafodaethau diweddar gyda'r Lutheriaid, ond roedd y dylanwad hwn ymhell o fod yn bendant. Roeddent yn defnyddio iaith oedd yn amlwg yn ddiwygiol, yn nhermau athrawiaethau gwaredigaeth a'r sacramentau, ac yn nhermau diwygio arferion ofergoelus yn ymwneud â delweddau, ond nid oeddent yn hyrwyddo athrawiaeth Lutheraidd. Yn y cyfamser roedd y Chwe Erthygl yn pennu agweddau allweddol o gred ac arferion Catholig, megis diweirdeb clerigol a'r Gwir Bresenoldeb yn yr Ewcharist. Mae'r Deg Erthygl yn fwy diwygiedig eu hiaith; mae'r Chwe Erthygl yn fwy ceidwadol, arwydd o bryder Harri fod ei ddeiliaid wedi defnyddio ei Oruchafiaeth Frenhinol fel esgus dros symud at yr hyn yr ystyriai ef yn heresi. Eto i gyd nid yw'r Chwe Erthygl mewn unrhyw fodd yn gwrthddweud nag yn gwrthdroi'r Deg Erthygl. Gyda'i gilydd, maent yn mynegi dwy ochr diwygiadau Harri: yn ofalus efengylaidd eu mynegiant, ond ar rai materion canolog o ffydd a gwaredigaeth, yn gadarn draddodiadol.

Nifer fach o bobl oedd yn deall yr hyn yr oedd Harri yn ceisio'i gyflawni pan oedd yn fyw. Roedd llawer o Gatholigion yn gandryll pan wrthododd y babaeth, ac roedd rhai, fel Thomas More, yn ddigon craff i weld na fyddai athrawiaeth Gatholig yn goroesi'n hir heb ufudd-dod i'r Pab fel canolbwynt i undod yr eglwys. Roedd hyd yn oed y Catholigion hynny oedd yn gwerthfawrogi syniadau diwygiol Erasmus yn syn yn wyneb dulliau anwaraidd y brenin, y modd didostur yr oedd yn trin ei wrthwynebwyr a'i hunan-ymffrost ymosodol gyda'r Oruchafiaeth

Frenhinol. Efallai fod ei amcanion yn gymedrol, ond roedd ei ddulliau'n greulon. Yn y cyfamser roedd y rheini oedd yn cael eu denu gan syniadau Luther neu Zwingli yn gobeithio – fel Cranmer a Cromwell – y byddai modd arwain y brenin ar hyd y ffordd at Brotestaniaeth. Roedd cyhoeddi eu cyfrol 'Llyfr yr Esgobion' ym 1537 heb gymeradwyaeth swyddogol y brenin, yn dangos pa mor bell yr oeddent am fynd â'r diwygiadau crefyddol hyn. Dro ar ôl tro drylliwyd eu gobeithion. Pan gafodd Harri gyfle i'w ddarllen, gorchmynnodd fod diwygiad mwy ceidwadol o 'Lyfr yr Esgobion' yn cael ei gyhoeddi, ac ymddangosodd hwn ym 1543. Yn addas ddigon, adwaenwyd y gyfrol hon fel 'Llyfr y Brenin'. Tan y diwedd roedd Harri'n benderfynol o gadw rheolaeth ar y Diwygiad yr oedd ef ei hun wedi'i gychwyn.

## Casgliad

Ni ddeallodd y gwahanol grwpiau crefyddol oedd yn amgylchynu'r brenin erioed yr hyn oedd yn greiddiol i grefydd Harri. I Harri, roedd yr Oruchafiaeth Frenhinol yn ymwneud llawn cymaint â'r Brenin ag yr oedd â Duw, a doedd dim modd gwahanu cwestiynau am athrawiaeth a thraddodiad eglwysig oddi wrth ddealltwriaeth o'i frenhiniaeth, a ordeiniwyd yn ddwyfol. Methodd cyfoedion oedd yn rhoi'r pwyslais ar ystyriaethau crefyddol pur, a sylwebwyr diweddarach oedd â'u bryd ar ganlyniadau diwinyddol, â deall gwirionedd canolog y Diwygiad Harïaidd. Efallai mai wyneb ddalen y Beibl Saesneg, y 'Great Bible', sef y cyfieithiad Saesneg cyntaf o'r Ysgrythur i'w awdurdodi'n swyddogol ac a ymddangosodd ym 1539, sy'n rhoi'r darlun cliriaf o grefydd Harri. Dangosai Harri ar ei orsedd, yn cyflwyno copïau o'r Beibl i glerigwyr ar y naill law, ac i leygwyr ar y llaw arall. Ymhellach i lawr y dudalen, gwelwn Air Duw yn cael ei gyhoeddi o'r pulpud ar y naill ochr, ac yn cael ei drafod gan wŷr bonheddig ar y llall. Ar y gwaelod, mae pobl gyffredin yn gwrando ar y Beibl yn cael ei bregethu. Eu hymateb yw gweiddi bonllefau o ganmoliaeth, ond nid – fel y byddid yn disgwyl – i Dduw, ond i Harri. Y waedd yw 'Vivat Rex!' a 'Long Live the King!' Mae'r darlun o Harri ar frig y dudalen yn dwyn i gof Crist yn ei Ogoniant. I Harri, roedd awdurdod Duw ac awdurdod y Brenin fwy neu lai wedi uno: roedd ufudd-dod i'r naill yn mynnu ufudd-dod i'r llall. Doedd Harri VIII ddim wedi gwrthod y Pab ond i bob pwrpas wedi cymryd ei le. Ni fyddai crefydd na gwleidyddiaeth yn Lloegr fyth yr un fath eto.

### Materion i'w trafod

- I ba raddau yr oedd Harri VIII yn cael ei ddylanwadu gan garfannau efengylaidd a cheidwadol, ac i ba raddau roedd yn pennu ei bolisïau crefyddol ei hun?
- Beth oedd y berthynas rhwng dealltwriaeth grefyddol Harri a'i farn am frenhiniaeth?
- Oedd yna unrhyw beth 'Protestannaidd' am y Diwygiad Harïaidd, ynteu a oedd wedi'i symbylu'n bennaf gan syniadau am ddiwygiad Catholig?

### Darllen pellach


- G.W. Bernard, *The Making of Religious Policy, 1533-1546: Henry VIII and the Search for the "Middle Way"*, Historical Journal, 41 (1998)
- P. Collinson, *Truth and Legend: the veracity of John Foxe's Book of Martyrs*, yn Elizabethan Essays (1994)
- P. Marshall, *Reformation England 1480-1642* (2003)
- R. Rex, *Henry VIII and the English Reformation* (1993)
- J. Scarisbrick, *The Reformation and the English People* (1984)
- L.Wooding, *Henry VIII* (2008)


*Darlithydd hanes yng Ngholeg King's, Llundain yw Lucy Wooding.*

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd History Today Ltd. o *History Today*, Rhagfyr 2009: *Henry VIII and Religion*, Lucy Wooding.

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydnabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

Cyfieithydd: Catrin Beard
Golygydd: Lynwen Rees Jones
Dylunydd: Richard Huw Pritchard